Adroddiad ar

Ysgol Y Llan, Chwitffordd

Chwitffordd
Treffynnon
Sir y Fflint
CH8 9AN

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Llan, Chwitffordd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Llan, Chwitffordd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 1 – Cyfrwng Saesneg gyda'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 70 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 54 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 10 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 9.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 14.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 9.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/06/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/10/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Y Llan yn darparu amgylchedd cadarn ac anogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn barod i ddysgu. Mae partneriaethau cryf â rhieni, yr eglwys leol, a sefydliadau cymunedol yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos yr ysgol ac ymdeimlad disgyblion o berthyn. Mae staff yn dangos ymrwymiad clir i gefnogi lles a chynnydd pob un o'r disgyblion, yn cynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu. Mae disgyblion yn mynd ati i ymgysylltu ym mywyd yr ysgol ac yn dangos ymddygiad cadarnhaol a brwdfrydedd am ddysgu, yn gyson.

Mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn darparu profiadau dysgu sy'n ddifyr ac yn briodol o heriol. Maent yn defnyddio strategaethau holi ac adborth effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth a chefnogi cynnydd. Mae amgylcheddau dysgu, yn cynnwys ardal awyr agored a ddefnyddir yn dda, yn symbylu chwilfrydedd disgyblion ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Mae staff yn cydweithio i gynllunio cyfleoedd dysgu hynod effeithiol sy'n ymgorffori syniadau disgyblion yn ystyrlon mewn themâu dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd cryf ac yn cyfathrebu'n hyderus. Maent yn cymhwyso strategaethau ffoneg yn effeithiol ac yn ysgrifennu â rhuglder a diben cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn darllen, gan ddangos dealltwriaeth a mynegiant gwell. Caiff datblygu'r Gymraeg ei gefnogi'n dda, ac mae disgyblion yn defnyddio ystod o batrymau brawddeg i fynegi eu hunain yn hyderus.

Caiff medrau rhifedd eu datblygu'n raddol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu cymhwyso'n hyderus mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae cymhwysedd digidol yn gryfder, ac mae disgyblion yn defnyddio technoleg yn greadigol ac yn ddiogel ar draws y cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion archwilio'u hardal leol ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, ni ddarperir cyfleoedd digonol i ddisgyblion benderfynu sut maent yn cyflawni eu hamcanion dysgu.

Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn chwarae rôl ystyrlon mewn ffurfio darpariaeth yr ysgol. Mae staff yn nodi ac yn cefnogi anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol, gan ddefnyddio ymyrraethau wedi'u targedu a mannau dynodedig i hyrwyddo lles a chynnydd.

Mae prosesau hunanwerthuso yn gydweithredol a chywir, gan lywio gweithgareddau gwella'r ysgol yn llwyddiannus. Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau'n dda, yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad strategol, ac yn darparu her a chymorth priodol i arweinwyr. Mae dysgu proffesiynol yn bwrpasol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol. Mae staff yn rhannu arfer effeithiol ac yn rhoi strategaethau newydd ar waith yn hyderus, gan gyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud eu dewisiadau eu hunain am sut maent yn mynd i'r afael â'u tasgau a'u cwblhau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Y Llan yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar ar gyfer disgyblion, lle gallant dyfu a dysgu gyda'i gilydd. Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau cydweithredol cryf â rhieni, yr eglwys gyfagos, a grwpiau lleol amrywiol. Mae hyn yn cynorthwyo'r ysgol i fod yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n dangos ymrwymiad cryf i les a chynnydd pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n fregus. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn weithredol ym mywyd yr ysgol a'r gymuned leol, gan ddangos ymddygiad ac agweddau cadarnhaol at ddysgu yn gyson.

Mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion, ac yn darparu gweithgareddau sy'n briodol o heriol, sy'n ennyn eu diddordeb yn effeithiol yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r staff yn fodelau rôl iaith cryf ac yn defnyddio ystod o strategaethau holi effeithiol i gefnogi meddwl a dysgu'r disgyblion. Mae athrawon yn symud dysgu'r disgyblion ymlaen ar gyflymdra addas ac yn rhoi adborth cynhyrchiol ar lafar sy'n galluogi disgyblion i fyfyrio a gwella'u gwaith.

Mae staff yn creu amgylcheddau dysgu effeithiol sy'n dal diddordeb y disgyblion ac yn symbylu eu chwilfrydedd. Mae'r ardal ddysgu awyr agored yn hynod drawiadol ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ddatblygu medrau disgyblion yn yr amgylchedd naturiol ac yn cefnogi datblygiad eu hannibyniaeth. Mae staff yn cydweithio'n dda i gynllunio a threfnu tasgau a phrofiadau dysgu hynod ddifyr o gwmpas themâu canolog, gan ymgorffori syniadau disgyblion yn bwrpasol.

### Ciplun: Ennyn diddordeb disgyblion mewn cyfleoedd dysgu hynod ysgogol

Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i nodi themâu difyr a chynllunio ystod eang o weithgareddau pwrpasol sy'n herio, yn cyffroi ac yn dal diddordeb disgyblion. Mae

staff yn gwneud cryn ymdrech i baratoi adnoddau o ansawdd uchel ac yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddylanwadu ar gyfeiriad eu dysgu a datblygu ymdeimlad cryf o berchnogaeth dros eu gwaith. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y profiadau a ddarperir.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau iaith yn gyflym o oedran ifanc ac yn esbonio'u tasgau gyda manylder priodol. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn siaradwyr hyderus sy'n addasu eu tôn a'u cynnwys yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau ffoneg yn bwrpasol i gefnogi eu darllen a'u sillafu cynnar, gan gymhwyso'r medrau hyn gydag annibyniaeth gynyddol yn eu gwaith ysgrifenedig. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu syniadau'n hyderus ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn effeithiol at amrywiaeth o ddibenion. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau gwrando ar storïau a thrafod cynnwys llyfrau. Maent yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau darllen, gan wella'n gyson o ran eu rhuglder, eu defnydd o fynegiant a'u dealltwriaeth.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r medrau hyn ar draws ystod o gyd-destunau trwy gydol y diwrnod ysgol. Mae disgyblion iau yn ymateb yn briodol i gwestiynau a chyfarchion a ddefnyddir yn aml. Wrth iddynt fagu hyder, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ehangu eu geirfa'n llwyddiannus ac yn datblygu amrywiaeth o batrymau iaith sy'n eu galluogi i fynegi eu hunain yn ystyrlon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg a rhifedd yn bwrpasol. O oedran cynnar, maent yn adnabod rhifau a'u gwerthoedd ac yn meithrin dealltwriaeth gadarn o gyfrif a bondiau rhif. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus mewn cyd-destunau thematig, fel amcangyfrif meintiau byddinoedd yn yr Ail Ryfel Byd gan ddefnyddio strategaethau talgrynnu i filiwn. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gymhwyso'u medrau digidol ar draws y cwricwlwm, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r medrau hyn yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau. Caiff medrau disgyblion eu datblygu'n raddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac mae bron pob un ohonynt yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddiogelwch ar-lein.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u hardal leol ac ymgysylltu'n weithgar â'r gymuned. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi dilyniant disgyblion mewn medrau yn llwyddiannus, gan sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud eu dewisiadau eu hunain am sut maent yn mynd i'r afael â'u tasgau a'u cwblhau. Mae staff yn cynllunio ystod eang o

gyfleoedd pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o wahanol fathau o ffydd, diwylliannau a bydolygon, gan feithrin parch ystyriol am oddefgarwch ac amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn dilyn prosesau cadarn i sefydlu ystod eang o grwpiau disgyblion sy'n cyfrannu'n sylweddol at fywyd yr ysgol. Mae bron pob aelod yn dangos ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb, yn mynd ati i hyrwyddo llais y disgybl, ac yn datblygu medrau arwain effeithiol yn eu rolau. Er enghraifft, mae hyrwyddwyr digidol hynod huawdl a medrus yr ysgol yn cynorthwyo staff a disgyblion trwy fonitro dyfeisiau digidol ac arwain cyfleoedd dysgu rheolaidd ar destunau pwysig fel diogelwch ar-lein.

Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a allai fod ganddynt yn gyflym, gan olrhain eu cynnydd yn fanwl gywir. Mae'r cydlynydd ADY yn cydweithio'n effeithiol ag ystod o asiantaethau allanol, cynghorwyr ac ysgolion clwstwr i sicrhau bod darpariaeth yr ysgol yn cefnogi lles a chynnydd pob un o'r disgyblion yn briodol. Mae disgyblion a staff yn manteisio ar adnoddau buddiol sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae datblygiad diweddar man dynodedig ar gyfer cymorth ADY wedi bod yn hynod effeithiol o ran darparu amgylchedd digynnwrf a phwrpasol lle gall disgyblion reoleiddio'u hemosiynau, cael cymorth targedig a magu eu hyder.

Mae staff addysgu yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol sy'n cyd-fynd yn effeithiol â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cefnogi eu diddordebau a'u huchelgeisiau unigol. Mae staff yn rhannu eu dysgu gyda chydweithwyr yn effeithiol, yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol ystyrlon, ac yn rhoi strategaethau perthnasol ar waith sydd wedi'u teilwra i gyd-destun yr ysgol. Mae hyn yn helpu sicrhau bod ganddynt yr hyder i gefnogi lles a chynnydd bron pob un o'r disgyblion. Mae prosesau rheoli perfformiad wedi'u cysylltu'n glir â safonau proffesiynol ac yn gosod disgwyliadau sy'n addas o uchel ar gyfer pob un o'r staff, yn cynnwys y pennaeth. Caiff targedau eu paru'n dda â thaith ddatblygu pob athro ac maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at welliant ysgol gyfan.

Mae prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn gadarn a chynhwysol. Mae athrawon yn ymgymryd â rôl arweiniol mewn ystod eang o weithgareddau monitro, yn cynnwys arsylwadau gwersi, olrhain cynnydd disgyblion a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r arferion hyn yn galluogi arweinwyr i nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella, yn gywir. Mae staff yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i gyfrannu'n effeithiol at gyfeiriad strategol a gweithgareddau gwella'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn rhannu eu harfer effeithiol i gynorthwyo ysgolion eraill. Maent yn cyfrannu'n fuddiol at ystod eang o brosesau hunanwerthuso, gan gydweithio'n effeithiol ag athrawon i nodi cryfderau a meysydd i'w

gwella. At ei gilydd, maent yn darparu her a chymorth addas i arweinwyr ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025